# Y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)

## Crynodeb o'r newidiadau yng Nghyfnod 2

Ionawr 2015

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i'r ***Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)*** ('y Bil') yn ystod trafodion Cyfnod 2. Yn ystod y trafodion hyn, newidiwyd enw byr y Bil o'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsys (Cymru) i'r *Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)*.

## Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2013, bu Kirsty Williams AC yn llwyddiannus mewn balot deddfwriaethol a chynhaliodd ddau ymgynghoriad ynghylch ei chynigion. Ar 1 Rhagfyr 2014, cyflwynodd y *Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)* gerbron y Cynulliad.

Nod y Bil fel y'i cyflwynwyd oedd 'sicrhau bod lefelau digonol o staff nyrsio yn y GIG yng Nghymru er mwyn darparu gofal nyrsio diogel ac effeithiol o safon i gleifion bob amser'.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil, yn fras, yn:

– rhoi dyletswydd ar gyrff y gwasanaeth iechyd yng Nghymru i roi sylw i'r pwysigrwydd o sicrhau lefel briodol o staff nyrsio lle bynnag y darperir gofal nyrsio gan y GIG;

– rhoi dyletswydd ar gyrff y gwasanaeth iechyd i 'gymryd pob cam rhesymol' i gynnal cymarebau gofynnol o ran staff nyrsio, ar wardiau acíwt i oedolion yn y lle cyntaf, gan sicrhau'r cymarebau gofynnol rhwng nyrsys a chleifion; a'r cymarebau gofynnol rhwng nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd;

– ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r dulliau/prosesau y bydd sefydliadau'r GIG yn eu defnyddio i benderfynu ar y lefelau staff nyrsio sy'n briodol yn lleol ac sy'n ddiogel bob amser. Bydd y canllawiau'n berthnasol yn y lle cyntaf i wardiau acíwt i oedolion a bydd yn nodi'r cymarebau staffio gofynnol ac amrywiaeth sgiliau staff yn y lleoliadau hyn;

– sicrhau, wrth benderfynu ar lefelau staff nyrsio, bod rolau penodol (prif nyrsys, er enghraifft) yn cael eu hystyried yn rolau ychwanegol neu uwchrifol, a bod ffactorau fel hyfforddi a datblygu staff ac absenoldeb wedi'i gynllunio/heb ei gynllunio yn cael eu hystyried mewn modd priodol;

– rhoi dyletswydd ar gyrff y gwasanaeth iechyd yng Nghymru i fonitro i ba raddau y maent yn cydymffurfio â'r gofynion i sicrhau lefel briodol o staff nyrsio , ac i gymryd camau os nad ydynt yn llwyddo i wneud hynny; ac

mae Kirsty Williams yn dweud y bydd y Bil yn darparu sail statudol i gleifion a staff allu herio lefelau isel o staff nyrsio.

### Craffu

– Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("y Pwyllgor") ar gyfer y gwaith craffu.

– Gwnaeth y Pwyllgor 19 o argymhellion yn ei **Adroddiad Cam 1,** a gyhoeddwyd Mai 2015. Hefyd, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad** ar y Bil ym mis Mai. Cytunodd y Cynulliad ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Mehefin, 2015.

– Dechreuodd Cyfnod 2 ar 4 Mehefin 2015, a chyfarfu'r Pwyllgor i ystyried a gwaredu gwelliannau ar 25 Tachwedd 2015.

– Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael yn y **Crynodeb o'r Bil gan y Gwasanaeth Ymchwil**.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

## Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2

Cyflwynwyd ***39 o welliannau***; tynnwyd un ohonynt yn ôl yn ddiweddarach. Ni chyflwynwyd gwelliannau yng Nghyfnod 2 gan Kirsty Williams, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil. **Derbyniwyd pob un o'r 10 o welliannau a gyflwynwyd gan Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ('y Gweinidog').**

Nodir isod rai o'r newidiadau allweddol a wnaed yn ystod trafodion Cyfnod 2 (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr).

### Dyletswydd i gynnal lefelau diogel staff nyrsio

Roedd y rhan fwyaf o'r gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2 yn ymwneud â'r **ddyletswydd i gynnal lefelau diogel staff nyrsio**. Y gwelliant mwyaf sylweddol oedd **gwelliant 29** a gyflwynwyd gan y Gweinidog ac a dderbyniwyd gan y Pwyllgor. Ei effaith oedd **disodli rhan sylweddol o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd)** ag adran newydd a fyddai, yn ei thro, yn ychwanegu adrannau newydd 25A-E at *Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006*. Mae rhifau'r adrannau (isod) yn cyfeirio at y mewnosodiadau a fyddai'n cael eu cynnwys yn y Ddeddf honno, ac nid i adrannau o'r *Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)*.

Yn benodol, o ganlyniad i **welliant 29:**

- Dilëwyd y gair 'diogel' o'r ddyletswydd i gynnal lefelau staffio. Y ddyletswydd yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2 yw **'cyfrifo a chymryd camau i gynnal staff nyrsio'** wrth ystyried maint y gwasanaethau nyrsio mewn ardal.
- Newidiwyd y rhai y rhoddir y ddyletswydd ddiwygiedig arnynt i 'gyfrifo a chymryd camau i gynnal staff nyrsio'. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn rhoi dyletswydd ar 'gyrff y gwasanaeth iechyd' (a oedd yn cynnwys Gweinidogion Cymru). Mae'r Bil diwygiedig yn rhoi'r ddyletswydd hon ar Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae hefyd yn diffinio Ymddiriedolaethau'r GIG i olygu 'Ymddiriedolaeth GIG sydd â'i holl ysbytai, sefydliadau a chyfleusterau, neu'r mwyafrif ohonynt, yng Nghymru'.

### Lleoliadau lle y byddai'r ddyletswydd yn berthnasol

Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn ei gwneud yn ofynnol pennu cymarebau staff nyrsio ar gyfer wardiau cleifion mewnol i oedolion mewn ysbytai acíwt. Mae hefyd yn cynnwys pwerau i wneud rheoliadau i ganiatáu i Weinidogion Cymru ehangu'r ddyletswydd hon i 'leoliadau ychwanegol'. Bu cryn ddadlau ynglŷn â'r agwedd hon ar y Bil yn ystod trafodion Cyfnod 1. Yn ei adroddiad Cyfnod 1, mynegodd y Pwyllgor 'bryderon sylweddol' am eithrio wardiau iechyd meddwl mewn ysbytai acíwt. Roedd hefyd yn pryderu am y canlyniadau anfwriadol posibl pe bai staff yn cael eu symud o wardiau eraill mewn ysbytai acíwt ac o ysbytai cymunedol er mwyn bodloni'r gofynion a bennwyd ar gyfer wardiau cleifion mewnol i oedolion mewn ysbytai acíwt.

Cyflwynwyd 23 o welliannau yng Nghyfnod 2 gan Elin Jones AC, Darren Millar AC, a'r Gweinidog. Derbyniodd y Pwyllgor welliannau'r Gweinidog (**28 a 29**). Roedd gwelliannau'r Gweinidog yn egluro bod y ddyletswydd 'i gyfrifo a chymryd camau i gynnal staff nyrsio' yn berthnasol i wardiau meddygol acíwt i oedolion a wardiau llawfeddygol i oedolion. Mae hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ehangu'r ddyletswydd a'i chymhwyso i 'sefyllfaoedd eraill'.

Ni dderbyniwyd gwelliannau a fyddai wedi cynnwys lleoliadau ychwanegol fel wardiau iechyd meddwl, wardiau ysbytai cymunedol a wardiau mamolaeth ar wyneb y Bil. Dadleuodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil a'r Gweinidog nad oedd digon o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i weithredu'r ddyletswydd 'i gyfrifo a chymryd camau i gynnal staff nyrsio' mewn lleoliadau ychwanegol o'r dechrau un.

### Canllawiau

Newidiodd **gwelliant 29** yr hyn y mae'n rhaid **ei nodi yn y canllawiau** y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG o ran y ddyletswydd

ddiwygiedig i gyfrifo a chymryd camau i gynnal staff nyrsio. Yn ôl y Bil (fel y'i cyflwynwyd) roedd yn rhaid i'r canllawiau 'nodi'r dulliau y bydd cyrff y gwasanaeth iechyd yn eu defnyddio i gydymffurfio â'r ddyletswydd'. Yn dilyn gwelliant y Gweinidog, mewnosodwyd adran newydd (adran 25D) sy'n nodi'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio ac y caiff 'y canllawiau eu nodi'.

Mae gwelliant y Gweinidog yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag amrywiaeth o gyrff, sefydliadau a phobl y mae'r canllawiau'n debygol o effeithio arnynt. Mae gwelliant Darren **gwelliant 29Q** yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru yn awr ymgynghori â'r sector gofal iechyd annibynnol a'r sector gofal cartref cyn cyhoeddi'r canllawiau. Roedd y Gweinidog o blaid gwelliant 29Q ond dywedodd y byddai angen gwelliant arall yng Nghyfnod 3 i roi diffiniad cliriach i'r termau a ddefnyddir yng ngwelliant 29Q.

## Recriwtio, hyfforddi a chynllunio'r gweithlu

Cyfeiriwyd at y tri maes hyn yn y dystiolaeth a gafwyd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1, er enghraifft:

- Roedd y Pwyllgor yn 'pryderu'n sylweddol' , y gallai'r Bil arwain at gynnydd, yn y tymor byr, yn nifer y staff asiantaeth/cronfa a ddefnyddir ';
- Cyfeiriwyd yn helaeth iawn at ddiffyg gallu'r gweithlu presennol fel y prif rwystr rhag gweithredu'r Bil.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil ystyried cynnwys y trefniadau ar gyfer cynlluniau gweithlu cynhwysfawr ar wyneb y Bil.

Er na dderbyniwyd unrhyw un o'r gwelliannau'n ymwneud â'r materion hyn yng Nghyfnod 2, dywedodd y Gweinidog ei fod yn cefnogi rhai newidiadau o ran egwyddor:

- Dywedodd y Gweinidog, nad oedd yn cytuno ag union eiriad gwelliant **29AE** Elin Jones yn ymwneud â recriwtio a hyfforddi nyrsys, ond roedd yn cytuno â rhai o'i dadleuon a chynigiodd weithio gyda hi i gynnig gwelliant yng Nghyfnod 3 a fyddai'n cyflawni ei nod mewn ffordd fwy cadarn;
- Cynigiodd y Gweinidog weithio yn yr un modd gyda Darren Millar mewn perthynas â **gwelliant 29P** a oedd yn ceisio'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch y gwaith o gynllunio'r gweithlu i alluogi cyrff y gwasanaeth iechyd i gydymffurfio â'r dyletswyddau yn y Bil. Dywedodd y Gweinidog y gallai'r gwelliant gryfhau'r trefniadau presennol ymhellach a gallai roi pwyslais cryfach ar y gofynion i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gynllunio'r gweithlu ar gyfer y dyfodol.

## Cyflwyno adroddiadau

O ganlyniad i **welliant 32** (a gyflwynwyd gan y Gweinidog), dilëwyd yr adran a oedd yn nodi gofynion i gyflwyno adroddiadau (Adran 3). Mae'r gofynion diwygiedig wedi'u nodi yn adran 25E yn awr.

Mae'r adran newydd hon, sef 25E, yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru **bob tair blynedd** o ran y ddyletswydd ddiwygiedig i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staffio nyrsys.

O ganlyniad i'r gwelliant, **dilëwyd y ddyletswydd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r modd y caiff y Ddeddf ei gweithredu a pha mor effeithiol ydyw** ymhen blwyddyn i ddechrau a bob dwy flynedd wedyn.

## Dangosyddion nyrsio diogel

Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru asesu effaith y Ddeddf drwy gyfeirio at gyfres o naw o 'ddangosyddion nyrsio diogel' a nodwyd ar wyneb y Bil. Dilëwyd y gofyniad hwn gan **welliant 32** (a gyflwynwyd gan y Gweinidog). Mae'r Bil yn awr yn ei gwneud yn ofynnol i BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG y mae'r ddyletswydd i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio'n gymwys iddynt, nodi sut y mae peidio â chynnal lefelau staffio nyrsys wedi effeithio ar y gofal a gaiff cleifion. Mae'r Bil yn nodi y gellid

gwneud hyn, er enghraifft, drwy gyfeirio at rai o'r tri dangosydd a restrir ar y wyneb y Bil (adran 25E (1) (b)).

### Cychwyn

Mae **gwelliannau 33 a 34** y Gweinidog yn golygu bod y Bil yn dod i rym, ac eithrio adran 2, pan fydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Daw Adran 2 i rym drwy Orchymyn cychwyn. Mae'r ddau welliant yn adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol na ellir cychwyn y darpariaethau gweithredol nes bydd y canllawiau ar waith.

### Enwau byr a hir y Bil

Dilëwyd y gair 'diogel' o'r enw byr gan **welliant 35**.

Diwygiwyd yr enw hir i ddileu'r gair 'diogel' gan **welliant 38 (** a gyflwynwyd gan y Gweinidog) ac i ddileu'r cyfeiriad at Weinidogion Cymru o dan y term cyffredinol 'cyrff gwasanaeth iechyd'. Cyn hynny dyma oedd yr enw hir:

> Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gyrff yn y gwasanaeth iechyd wneud darpariaeth ar gyfer lefelau diogel o staff nyrsio.

Dyma enw hir y Bil diwygiedig:

> Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynghylch Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru i sefydlu lefelau staff nyrsio.

### Diben y Bil

Dilëwyd adran 1, a oedd yn nodi diben y Bil, gan **welliant 27**.

## Y camau nesaf

Dechreuodd Cyfnod 3 ar 26 Tachwedd, 2015. Ail-drefnwyd cynnal Dadl Cyfnod 3 i 3 Chwefror, 2016. Y dyddiad cau newydd ar gyfer cyflwyno gwelliannau yw 18:00 ddydd Mercher 27 Ionawr, 2016.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â Llinos Madeley, y clerc sy'n bennaf cyfrifol amdano, (**Seneddlechyd@cynulliad.cymru** )

Darllenwch ein **holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **cynulliadcymru.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ni ar Twitter: **@SeneddYmchwil**